Employability
Cyflogadwyedd

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Faculty of Science and Engineering
y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg

# Eich Llawlyfr Cyflogadwyedd

Adnodd amhrisiadwy i gymryd rheolaeth o'ch cyflogadwyedd!



# Llawlyfr Cyflogadwyedd y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg

Employability
Cyflogadwyedd

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Faculty of Science and Engineering
y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg

# Trosolwg o'r Modiwl

## Cyflwyniad

Fel popeth yn y byd, mae sgiliau cyflogadwyedd yn newid yn barhaus. Dywedodd yr ISE (Institute of Student Employers) "The overwhelming majority (78%) of employers agreed that graduates who had completed an internship or work placement were more skilled than those who had not."

Bydd y sgiliau y byddwch chi'n eu dysgu yn ystod y modiwl cyflogadwyedd yn eich helpu i gael lleoliad gwaith neu interniaeth gwerthfawr ac ennill sgiliau trosglwyddadwy yn barod ar gyfer byd gwaith.

Fel byd gwaith, mae sgiliau meddal wedi esblygu, ac er bod cyflogwyr yn dal i werthfawrogi sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu a chyflwyno, mae disgwyl i ni ddangos y rhain eisoes. Mae'r sgiliau meddal a'r ymddygiadau y mae cyflogwyr nawr ac yn y dyfodol yn chwilio amdanynt yn cynnwys:

- **Y gallu i ymaddasu a bod yn hyblyg**
- **Creadigrwydd**
- **Rheoli Amwysedd - Sut ydych chi'n gwneud penderfyniadau heb y darlun llawn neu addasu i newid?**
- **Gwydnwch - Sut ydych chi'n ymdrin â heriau ac anawsterau?**
- **Datrys Problemau / Trafod a Datrys Gwrthdaro**
- **Arweinyddiaeth**

Mae'r Modiwl Cyflogadwyedd Gyrfa a Datblygiad Proffesiynol wedi'i gynllunio i roi sylfaen gref i chi yn y cymwyseddau y mae cyflogwyr modern yn eu gwerthfawrogi yn ogystal â rhoi'r sgiliau angenrheidiol i chi chwilio am swydd ac ymgymryd â phroses cyflwyno cais yn llwyddiannus, fel myfyriwr ac ar ôl graddio. Wrth atgyfnerthu eich astudiaethau, bydd y modiwl hwn yn eich paratoi ar gyfer byd gwaith ac yn gwneud effaith gadarnhaol ar gamau cyntaf oll eich bywyd proffesiynol.

Gall y rhinweddau hyn helpu ymgeiswyr i ddisgleirio wrth ymgeisio am swyddi, mewn cyfweliadau ac wrth ymgeisio ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig. Maen nhw'n cynrychioli arfau amhrisiadwy y gall myfyrwyr fynd â nhw i'r gweithle.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys:

- cyflwyniad i'r modiwl
- gwybodaeth am asesu ac adborth, gan gynnwys y brîff gwaith cwrs
- trosolwg o'r modiwl cyfan

## Cyflwyno modiwlau

Fel arfer, bydd darlithoedd yn cael eu hamserlennu a'u darparu wyneb yn wyneb ar y campws. Bydd recordiad (neu recordiad a wnaed ymlaen llaw) yn cael ei bostio ar Canvas yn dilyn y ddarlith.

## Cyfathrebu

Bydd yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r modiwl yn cael ei throsglwyddo i fyfyrwyr drwy Canvas drwy'r nodwedd Cyhoeddiadau a fydd hefyd yn anfon hysbysiad e-bost at gyfrifon myfyrwyr.

## Deilliannau Dysgu

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn, dylai myfyrwyr allu:-

- Meddu ar sgiliau i ddatod a deall disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn gallu cysylltu'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer y swydd y mae'n ymgeisio amdani
- Llunio Cynllun Datblygu Personol i helpu gyda dyheadau gyrfa a sgiliau yn y dyfodol
- Gwybod sut i fynegi a chyfleu sgiliau i gyflogwyr yn ystod cyfweliad am swydd
- Sut i gyflwyno eu hunain yn ystod digwyddiadau rhwydweithio gyda darpar gyflogwyr.

## Sgiliau Trosglwyddadwy

Cyfathrebu
Technoleg
Gwybodaeth Sgiliau
dadansoddi Datrys
problemau Ehangu
gorwelion
Gwella Dysgu a Pherfformiad Hyder
Cyfleoedd am
rwydweithio Rheoli
amser

## Asesu

Nid yw'r modiwl hwn yn dwyn credydau. Er y dyfernir graddau rhifiadol ar rai aseiniadau, er mwyn hyrwyddo datblygiad personol neu broffesiynol ymgeisydd, ni fydd marc terfynol yn cael ei neilltuo ar gyfer y modiwl hwn, ac ni fydd unrhyw farciau a dderbyniwch yn effeithio ar eich marc cyffredinol ar gyfer y tymor ac nid ydynt yn cyfrannu at eich gradd.

**Rhaid i fyfyrwyr sydd ar y rhaglen 4 blynedd hefyd dderbyn marc "pasio" cyffredinol er mwyn mynd ar leoliad diwydiannol am 12 mis.**

Mae'r asesiad ar gyfer y modiwl wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **100% "Cais am swydd"**

Bydd adborth ar gyfer y gwaith cwrs yn cael ei ddarparu unwaith y bydd yr holl aseiniadau wedi'u cyflwyno ac o fewn tair wythnos calendr i'r cyflwyniad olaf; mae hyn yn ein galluogi i roi gradd (pasio neu fethu) ar gyfer y modiwl cyfan. Bydd yr holl adborth ar gyfer yr aseiniad gwaith cwrs yn cael ei ddarparu drwy GradeMark. Bydd marciau ar gael drwy Grade Centre yn Blackboard a'ch porth myfyriwr y brifysgol.

- **Ffug Gyfweliad** – 20%
- **Myfyrdod Personol** – 50%
- **Cyflwyno eich CV** - 20%
- **Creu cyfrif LinkedIn** – 10%

Byddwch yn cael eich marc terfynol unwaith y bydd yr holl aseiniadau wedi'u cyflwyno.

**Cyflwyno yn Gymraeg**
Gellir cyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir fel rhan o unrhyw asesiad neu arholiad yn Gymraeg, ac ni fydd y gwaith a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir gennych chi yn Saesneg fel rhan o asesiad neu arholiad.

# Aseiniad Gwaith Cwrs Unigol

## Cais am swydd

### Cyflwyniad

Bydd yr aseiniad "Cais am Swydd" yn cwmpasu'r rhan helaeth o'r gwaith cwrs y byddwch yn ei gwblhau fel rhan o'r Modiwl Sgiliau Cyflogadwyedd. Byddwch yn cwblhau'r cais hwn â chyfres o aseiniadau a roddir i'w cyflwyno yn ystod y tymor. Mae'r aseiniad "Cais am Swydd" hwn wedi'i gynllunio i adlewyrchu, mewn modd mor realistig â phosibl, y broses o ddod o hyd i swydd, gwneud cais am swydd, a chael cyfweliad ar gyfer swydd. Mae wedi'i strwythuro i roi cyfle i chi feithrin sylfaen o sgiliau perthnasol a fydd yn eich helpu i wneud cais am swydd yn y dyfodol.

Er mwyn cwblhau'r "Cais am Swydd", bydd y myfyriwr yn dewis o gasgliad o 7-8 o ddisgrifiadau swydd a ddarperir ar Blackboard, swydd yr hoffai wneud cais amdani. Yna bydd y myfyriwr yn cwblhau'r elfennau canlynol o'r "Cais am Swydd"):

- **Bydd y meini prawf marcio allweddol yn cynnwys:**
- Ffug gyfweliad gyda shortlist.me
- Cyflwyno eich CV
- Creu cyfrif LinkedIn; rhoddir cyfarwyddiadau ar Canvas ac mewn darlith
- Myfyrdod personol sy'n cwmpasu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu amdanoch chi'ch hun drwy'r modiwl a mynd i'r ffug gyfweliad. Rhaid i hyn fod rhwng o leiaf 1,000 o eiriau ac uchafswm o 1,500 o eiriau

- Menter: gwreiddioldeb, a yw'r ateb yn arloesol
- Strwythur yr Aseiniad: eglurder nodau, amcanion, strwythur a'r cyflwyniad
- Ansawdd yr ysgrifennu: Darllenadwyedd a'r gallu i gyfleu neges(euon) allweddol yn gryno
- Ansawdd/Cwmpas yr Adolygiad o Lenyddiaeth: Deall gwybodaeth sefydledig
- Addasrwydd y Llenyddiaeth: Defnyddio ffynonellau addas, sy'n canolbwyntio ar ateb nodau ymchwil allweddol
- Dadansoddi Llenyddiaeth: Ansawdd/lefel y sgiliau dadansoddol a ddangosir
- Craffter y Gwaith Dadansoddi: Diddordeb a defnyddioldeb canfyddiadau, casgliadau a dynnir.
- Dealltwriaeth: mae'r aseiniad yn dangos bod myfyrwyr wedi deall pynciau allweddol
- Ansawdd cyffredinol yr aseiniad

### Cyflwyno

Rhaid cyflwyno'r prif aseiniad erbyn **2pm ar ddyddiadau dynodedig** drwy Canvas. Gall myfyrwyr ddisgwyl cael adborth unigol ar eu gwaith 3 wythnos o'r dyddiad cyflwyno

Sylwer:

- Uchafswm maint y ffeil y gellir ei lanlwytho yw 20MB. Os yw eich ffeil yn fwy na hyn, golyga hyn fel arfer bod llawer o luniau ynddi. Rhaid dileu rhai ohonynt os yw'n bosib, neu fel arall eu trosi'n fformat mwy effeithiol i leihau maint y ffeil (e.e. .png neu .gif).


- Dylech sicrhau bod eich rhif myfyriwr yn enw'r ffeil ar gyfer y gwaith rydych chi'n ei gyflwyno/lanlwytho.

- PWYSIG: Caiff unrhyw fyfyriwr a fydd yn cyflwyno asesiad ar ôl y dyddiad cyflwyno heb wneud cais am Amgylchiadau Esgusodol (yn unol â'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol) ei ystyried yn fyfyriwr heb gyflwyno a bydd yn derbyn marc o 0% am yr asesiad.

Dylai myfyrwyr sy'n debygol o gael eu hatal rhag bodloni'r dyddiad cau ar gyfer yr asesiad oherwydd amgylchiadau esgusodol roi gwybod i'r Ysgol, drwy gysylltu â staff y gwasanaeth proffesiynol a'ch mentor academaidd yn eich Cyfadran/Ysgol, a fydd yn gallu eich cynorthwyo a'ch cynghori ar weithdrefnau, cyn gynted â phosibl cyn dyddiad cau'r asesiad. Gweler y Polisi Amgylchiadau Esgusodol am ragor o wybodaeth.

## Cyflwyno Cyfarwyddiadau Gwaith Cwrs yn Ddigidol

- Mewngofnodwch i Canvas
- Ewch i dudalen briodol y cwrs o'ch dangosfwrdd.
- Cliciwch ar y botwm Aseiniadau, sy'n ymddangos ar ochr chwith y sgrîn.
- Cliciwch ar yr aseiniad perthnasol i'w gyflwyno.
- Yn y dudalen hon gwelwch ffeil y dudalen flaen ar gyfer cyflwyno aseiniad. Mae angen i chi gwblhau'r ffurflen hon a'i chynnwys fel dalen flaen eich gwaith cwrs (nid fel dwy ffeil ar wahân).
- Darllenwch y datganiad o wreiddioldeb cyn i chi glicio **Upload Submission** Wrth gyflwyno'r gwaith, rydych chi'n cytuno i'r datganiad hwn ac yn cadarnhau ei fod yn wir.
- Cliciwch **Choose File** i ddewis ffeil eich aseiniad.
- Cliciwch **Upload and Review** i lanlwytho eich aseiniad.
- Cliciwch **Submit to Turnitin** i gwblhau eich cyflwyniad
- Yna byddwch yn gweld neges sy'n dweud "Cyflwyniad wedi'i Gwblhau"




- Yna gallwch lawrlwytho derbynneb gyflwyno trwy glicio

ar yr eicon ar y dangosfwrdd Aseiniad. Lawrlwythwch y dderbynneb hon a'i chadw'n ddiogel fel tystiolaeth o

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu'n cael unrhyw anawsterau wrth gyflwyno gwaith, e-bostiwch y Tîm Cyflogadwyedd ar unwaith yn employability-scienceengineering@abertawe.ac.uk.

## Nodiadau ar Arddull a Chyfrif Geiriau

Mae aseiniadau'n rhan hanfodol o'r profiad dysgu a datblygu i ysgolheigion ym Mhrifysgol Abertawe. O ganlyniad, anogir myfyrwyr i gyflwyno gwaith o'r safon uchaf er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn. Gall myfyrwyr sy'n poeni am sut i gyflwyno eu gwaith siarad â Chydlynydd y Modiwl i gael arweiniad, yn ogystal â chyfeirio at y nodiadau isod.

Bydd marcwyr yn rhoi'r gorau i farcio pan fyddant yn cyrraedd uchafswm y cyfrif geiriau [neu'r terfyn amser], a fydd mwy na thebyg yn arwain at farc cyffredinol is gan na fydd dadleuon na chasgliadau allweddol yn cael eu cynnwys yn y gwaith sy'n cael ei farcio.

Ni fydd myfyrwyr sy'n cyflwyno gwaith o dan y terfyn geiriau'n derbyn cosb. Mae hyn oherwydd na fydd myfyrwyr wedi manteisio'n llawn ar y terfyn geiriau sydd ar gael iddynt.

I gael marciau uwch, mae'n rhaid i fyfyrwyr ddangos gwaith dadansoddi a myfyrio yn hytrach na disgrifio'n unig.
Dylid defnyddio sillafu a gramadeg cywir ar bob adeg. Dylai myfyrwyr ag anghenion dysgu penodol (SpLD) sydd wedi cael diagnosis swyddogol ac asesiad gan y Swyddfa Anableddau nodi 'SpLD' ar ffurflen Datganiad y Myfyriwr i'w chynnwys yn y gwaith a gyflwynir.

## Prawf-ddarllen

Byddwch yn ymwybodol o bolisi Prawf-ddarllen y Brifysgol sy'n nodi'r hyn y mae'r Brifysgol yn ei ystyried yn arfer academaidd da mewn perthynas â phrawf-ddarllen. Byddwch yn ymwybodol o'r gofynion sy'n ymwneud â hyn gan gynnwys cadw llwybr tystiolaeth sy'n ymwneud ag unrhyw brawf-ddarllen ac a yw'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae rhagor o fanylion ar gael yma.

## Arfer Academaidd Da

Mae gonestrwydd academaidd yn hanfodol i'r gwerthoedd a hybir gan Brifysgol Abertawe. Mae'n bwysig y caiff pob myfyriwr ei farnu'n ôl ei allu ac nid oes un myfyriwr sy'n cael cymryd mantais dros eraill, effeithio ar ddiogelwch a gonestrwydd y broses asesu, neu leihau dibynadwyedd ac ansawdd y cymhwyster a ddyfernir.

Camymddygiad Academaidd yw cyflawni gweithred sy'n golygu y gallai unigolyn gael mantais nas caniateir iddo ef/iddi hi ei hun neu i unigolyn arall. Mae hyn yn gallu bod yn berthnasol i unrhyw fath o waith asesedig gan gynnwys:

- arholiad llyfr agored sy'n cael ei sefyll ar-lein
- darn o waith cwrs
- unrhyw fath o asesiad a gynhelir wrth ddilyn cymhwyster academaidd neu broffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe.

Gellir cyflawni camymddygiad academaidd yn unigol neu fel grŵp. Mae

sawl math gwahanol o gamymddygiad academaidd gan gynnwys:

- **Llên-ladrata**
- **Cydgynllwynio**
- **Comisiynu**

Mae camymddygiad academaidd yn ddifrifol iawn i'r Brifysgol, a gall gael effaith niweidiol ar eich canlyniadau oherwydd pan ganfyddir y cafwyd camymddygiad academaidd, bydd cosbau yn cael eu rhoi.

Dylai myfyrwyr sylwi na fydd honni bod yn anymwybodol o ddisgwyliadau'r Brifysgol ynghylch ymarfer academaidd da'n amddiffyniad derbyniol wrth gael eich cyhuddo o gamymddygiad academaidd.

**Hunan-lên-ladrad** yw copïo gwaith a gwblhawyd yn wreiddiol a'i gyflwyno gan y myfyriwr a'i ailgyflwyno at ddiben arall, heb gydnabyddiaeth.
Er nad yw'r Brifysgol yn ystyried bod hunan-lên-ladrad yn gamymddygiad academaidd, mae'r Ysgol yn ei ystyried yn ymarfer academaidd gwael a bydd hyn wedi'i adlewyrchu yn y marciau a ddyfernir.

### Sut gall myfyrwyr ddysgu am ymarfer academaidd da?

Ar ddechrau'r tymor, mae'r llyfrgell yn cynnig sesiynau sefydlu i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau. Mae'r rhain yn cynnwys canllaw cyflawn i gyfeirnodi academaidd a manylion hyfforddiant pellach fel EndNote.

Mae gwybodaeth am ymarfer academaidd da ar gael i chi drwy'r Rhaglen Llwyddiant Academaidd yn https://www.swansea.ac.uk/cy/llwyddiant-academaidd/

https://myuni.swansea.ac.uk/academic-success/understanding-plagiarism/

Gellir dod o hyd i gwrs byr ar ymarfer academaidd da ar safle Canvas o'r enw 'CAS - Llwyddiant Academaidd: Sgiliau ar gyfer dysgu, Sgiliau am Oes - Adran 3 (Uniondeb Academaidd).
Ar ôl cwblhau'r dysgu hunangyfeiriedig, ceir cwis ar-lein (mae'n cymryd oddeutu 5 munud), sy'n asesu lefel eich dealltwriaeth o'r deunydd dysgu. Gallwch ailymweld â'r deunyddiau hyfforddi a gwneud y cwis gynifer o weithiau ag y dymunwch.

Darllenwch yr wybodaeth lawn ynghylch Camymddygiad Academaidd sydd ar gael ar https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/asesu-a-chynnydd/gweithdrefn-camymddwyn-academaidd/

## Aseiniad

Y radd gyffredinol ar gyfer yr aseiniad: "Cais am Swydd" fydd **pasio/methu**

Bydd myfyrwyr sydd â marc terfynol o 50% neu fwy yn "Pasio". Bydd myfyrwyr sydd â marc terfynol o lai na 50% yn "Methu".

### Meini Prawf Marcio – Ffug Gyfweliad

Bydd gofyn i bob myfyriwr gwblhau cyfweliad rhithwir ar Shortlist.Me. **Os bydd myfyriwr yn methu gwneud hynny bydd yn methu'r adran hon oni nodir amgylchiadau eithriadol.**

I gael y gorau o'ch ffug gyfweliad mae angen i chi feddwl am yr adrannau isod:

### Eich ymateb i bob cwestiwn:

- Ydych chi wedi ateb y cwestiwn a ofynnwyd?
- Ydych chi wedi rhoi manylion perthnasol?
- Ydych chi wedi cynnig gwybodaeth a/neu enghreifftiau cryf i ategu'ch datganiadau a'ch honiadau?
- A yw'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu'n gywir ac yn wir?
- A yw eich ymatebion yn dangos gwybodaeth am y cwmni, y disgrifiad swydd, etc?

### Eich cwestiynau ar ddiwedd y cyfweliad:

- A yw eich cwestiynau'n graff/yn feddylgar?

- A yw eich cwestiynau'n dangos gwybodaeth am y cwmni?
- A yw'ch cwestiynau'n briodol ar gyfer cyfweliad?

**Pan fyddwch yn cyrraedd yr ystafell, cyflwyniadau, etc.**

- A wnaethoch chi wenu ac ysgwyd llaw?
- Wnaethoch chi gyflwyno eich hun?
- A gawsoch chi enw pawb?

**Eich agwedd gyffredinol, eich ymagwedd, rhyngweithio, etc.**

- Ydych chi wedi gwisgo'n briodol?
- Ydych chi'n hyderus? Yn gyfeillgar? Yn wybodus?
- Ydych chi'n canolbwyntio ar eu cwestiynau nhw?
- Byddwch yn colli pwyntiau am bethau fel: ymddwyn fel pe bai rhywbeth arall yn tynnu eich sylw, ffidlo/gwingo, ymddygiad amhriodol, iaith amhriodol, etc.

**Meini Prawf Marcio – Myfyrdod Personol**

Dylai eich adlewyrchiad personol fod **o leiaf 1,000 o eiriau ac uchafswm o 1,500 o eiriau.** Dylai fod yn hunanasesiad o'ch datblygiad a'ch hunanymwybyddiaeth eich hun drwy gydol y modiwl. Mae'n ofynnol i chi fyfyrio ar yr hunanymwybyddiaeth o'ch sgiliau rydych chi wedi'u datblygu drwy'r modiwl a'ch profiadau o'r ffug gyfweliad a'r digwyddiad rhwydweithio. Dyma restr o gwestiynau enghreifftiol y gallech feddwl amdanynt.

Nid oes gofynion ar gyfer cynnwys a bydd cynnwys yn wahanol i bob myfyriwr unigol, ond wrth lunio'ch myfyrdod, rhaid i chi fynd i'r afael â phob adran gan ddefnyddio o leiaf 2 gwestiwn o bob adran:

Hunanymwybyddiaeth: Beth ydw i wedi'i ddysgu amdanaf fy hun wrth gwblhau'r modiwl?

- **Cryfderau** – Beth yw fy nghryfderau? Er enghraifft, ydw i'n drefnus iawn? Ydw i'n cofio pethau?
- **Gwendidau** – Beth yw fy ngwendidau? Er enghraifft, ydy pethau'n amharu ar fy sylw yn hawdd? A oes angen mwy o ymarfer arnaf gyda sgil benodol?
- **Sgiliau** – Pa sgiliau sydd gennyf i a beth ydw i'n ei wneud yn dda?
- **Problemau -** Pa broblemau sydd yn y gwaith/cartref a allai effeithio arna i? Er enghraifft, cyfrifoldebau neu ymyriadau a allai effeithio ar astudio.
- **Llwyddiannau** – Beth ydw i wedi'i gyflawni?
- **Hapusrwydd** – Oes pethau rwy'n anhapus â nhw neu'n siomedig amdanyn nhw? Beth sy'n fy ngwneud i'n hapus?
- **Atebion** – Ar ôl cwblhau'r modiwl pa gamau y gallaf eu cymryd i wella gwahanol feysydd?
- **A oes pethau y gallwn i fod wedi'u gwneud yn wahanol yn ystod y modiwl hwn?**

Ffug Gyfweliad:

- Pa gwestiynau y ces i drafferth â nhw?
- Pam ces i drafferth yn y meysydd hyn?
- Sut gallaf wella perfformiad yn y meysydd y ces i drafferth â nhw?
- Pa gwestiynau wnes i eu hateb yn dda?
- Pam gwnes i ateb y cwestiynau hyn yn dda?
- Sut gallaf ddefnyddio fy ymatebion llwyddiannus i wella gweddill fy nghyfweliad?
- Pa mor gyfforddus roeddwn i'n teimlo â'r cyfweliad?
- A oes pethau a allai wneud i mi deimlo'n fwy cyfforddus, hyderus neu barod?
- A yw'r ffug gyfweliad hwn yn cynnig unrhyw wybodaeth y gallaf ei defnyddio i lywio fy ngyrfa yn y dyfodol?
- A wnes i strwythuro fy ymatebion yn dda?

CV:

- Sut roeddwn i'n teimlo am fy CV?
- Ydw i wedi gofyn i ffrind/aelod o staff/cyfoedion edrych dros fy CV?

**Bydd eich myfyrdod yn cael ei farcio yn unol â'r canlynol:**

- Ansawdd yr ysgrifennu: Rhaid i'r holl gyflwyniadau fod wedi'u hysgrifennu'n dda, yn gryno, heb gamgymeriadau teipio, gwallau, gramadeg gwael, etc.

- Cynnwys: Rhaid i gyflwyniadau gynnwys yr holl adrannau perthnasol wedi'u trafod mewn darlithoedd/mynd i'r afael â'r holl gwestiynau perthnasol.
- Gwreiddioldeb: Dylai cyflwyniadau fod yn unigryw.

**Sefydlu cyfrif LinkedIn**

Mae'n ofynnol i chi hefyd sefydlu cyfrif LinkedIn a rhwydweithio ag un o'r ymgynghorwyr gyrfaoedd. Bydd manylion y cyfrifon hyn yn cael eu rhoi i chi yn y ddarlith. Rhaid i'ch cyfrif LinkedIn gynnwys llun a chrynodeb llawn o'ch sgiliau hyd yn hyn gan gynnwys profiadau gwaith.

**Bydd presenoldeb a chreu eich cyfrif LinkedIn yn cyfrif am 10% o'r modiwl sydd wedi'i farcio allan o 100.**

# Cychwyn Arni

**Beth gallwch ei ddisgwyl?**

Mae ymgeisio am swyddi yn anodd. Bydd llawer o fyfyrwyr yn cael eu gwrthod, neu efallai hyd yn oed yn cael eu hanwybyddu. Dylai pob cais am swydd fod o ansawdd uchel ac yn cyd-fynd â gofynion y swydd dan sylw; mae hyn yn cymryd amser. Mae'n bwysig cofio mai gwaith prifysgol ddylai ddod yn gyntaf!

**Sgiliau a Phriodweddau Allweddol:**




I ddarganfod pa sgiliau sy'n allweddol yn y sector lle rydych chi am weithio, edrychwch ar y proffiliau swyddi ar prospects.ac.uk:
[www.prospects.ac.uk/job-profiles.](http://www.prospects.ac.uk/job-profiles)

**Sut gallaf gael cymorth?**

Bydd defnyddio'r adnoddau y mae'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn eu cynnig i fyfyrwyr yn Abertawe yn eich helpu i lwyddo. Mae'r adnoddau hyn wedi'u dylunio a'u creu â ffocws cryf ar ein myfyrwyr.

Drwy dechnegau profedig a phrofiad gwerthfawr gan ein myfyrwyr presennol a'n cyn-fyfyrwyr, mae'r adnoddau hyn yn cael eu datblygu a'u gwella'n gyson.

Mae cwmnïau am i chi ddangos bod gennych yr holl sgiliau a phriodoleddau hyn. Dylech bob amser geisio modelu'ch ceisiadau i ddangos bod gennych y rhain. Gallwch ddatblygu'r rhain yn broffesiynol ac yn bersonol (yn y gwaith neu'n gymdeithasol).

# Achub ar y blaen, yn parhau

Rhowch hwb i'ch cyflogadwyedd! Mae llawer o sgiliau gwerthfawr a throsglwyddadwy y gallwch eu cael drwy wirfoddoli a bod yn rhan o gymdeithas yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol.

## Discovery

Mae 'Discovery SVS' yn elusen dan arweiniad myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe sy'n rheoli ystod eang o brosiectau gwirfoddoli. Nod ein prosiectau yw cyfoethogi bywydau pobl ddifreintiedig ar draws Abertawe a gweithio gydag aelodau gwahanol o'r gymuned, boed hynny gyda phlant a phobl ifanc, unigolion ag anghenion ychwanegol, ffoaduriaid a theuluoedd sy'n ceisio lloches a phobl hŷn. Ceir rhestr o brosiectau presennol yma, mae hyn yn cynnwys gwirfoddoli rhithwir: discoverysvs.org/our-projects

Mae gwirfoddoli yn brofiad gwobrwyol iawn sydd o fudd i'r gwirfoddolwr a'r gymuned. Fodd bynnag, gall gwirfoddoli fod yn gymaint mwy na ffordd hwyl a boddhaus o dreulio'ch amser. Gall gwirfoddoli hefyd helpu i ddatblygu eich gyrfa, meithrin sgiliau a gwella eich cyflogadwyedd ni waeth pa yrfa rydych chi am ei dilyn. Gall hefyd eich helpu i bennu eich nodau gyrfa, ac ychwanegu gwerth at eich CV os nad oes gennych brofiad gwaith.

## Cymdeithasau

Mae gan y Coleg Peirianneg gymdeithas i gynrychioli pob disgyblaeth. Mae'r rhain yn cael eu cynnal gan fyfyrwyr ac yn gyfle gwych i feithrin rhwydwaith ymhlith eich cyfoedion a gwneud ffrindiau yn ystod eich astudiaethau.

Mae pob cymdeithas yn cynnig llu o weithgareddau allgyrsiol o ddigwyddiadau cymdeithasol, ymweliadau â chynadleddau, digwyddiadau codi arian a sgyrsiau gan weithwyr proffesiynol. Dyma ffordd wych o roi hwb i'ch cyflogadwyedd wrth hefyd gymdeithasu gyda'ch cyfoedion a chael hwyl ar yr un pryd.

Gall myfyrwyr yn eu blynyddoedd olaf gynnig cymorth amhrisiadwy i chi drwy gydol eich gradd. Gallant gynnig arweiniad ar eich cwrs a hyd yn oed dealltwriaeth o'r diwydiant.

Mae Cymdeithasau Gwyddoniaeth a Pheirianneg Prifysgol Abertawe yn cynnwys: Y Gymdeithas Awyrofod, Y Gymdeithas Gemegol ac Amgylcheddol, Y Gymdeithas Sifil, Y Gymdeithas Electronig a Thrydanol, Y Gymdeithas Gwyddor Deunyddiau a Pheirianneg, y Gymdeithas Fecanyddol, Y Gymdeithas Peirianneg Feddygol, Menywod mewn Peirianneg, Peirianneg Hil, Y Gymdeithas Ffiseg, Y Gymdeithas Cemeg, Y Gymdeithas Ecoleg Cadwraeth, Y Gymdeithas Ddaearyddiaeth.

Mae'r holl wybodaeth am y cymdeithasau ar gael yma, gan gynnwys dolenni i bob un o'r cymdeithas uchod: https:// www.swansea-union.co.uk/get_involved/societies/

## Go Wales

Mae'r Rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith yn fenter Cronfa Gymdeithasol Ewrop i greu cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru sydd:

dan 25 oed, mewn addysg amser llawn, gallent fod yn wynebu rhwystrau i gael profiad gwaith a gallant gadarnhau un o'r datganiadau canlynol:

- Mae gen i anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar allu i weithio
- Rwy'n dod o gefndir Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig
- Mae gen i gyfrifoldebau gofalu neu ofal plant
- Rwy'n derbyn gofal neu wedi gadael gofal
- Rwy'n dod o gymdogaeth lle mae cyfranogiad isel mewn addysg uwch.

I gael gwybod rhagor am y rhaglen a meini prawf cymhwysedd, gweler gowales.co.uk neu e-bostiwch gowales@abertawe.ac.uk.

# Eich Swydd Ddelfrydol

Mae'n bwysig i chi ystyried pa ddiwydiant yr hoffech weithio ynddo pan fyddwch yn graddio. Pan fyddwch yn gweithio, mae'n hanfodol eich bod yn hapus â'ch swydd. Nid yw pob swydd yr un peth ac ni fydd pob swydd yn berffaith i chi. Dyma pam mae profiad gwaith mor bwysig i'ch helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eich dyfodol.

**Meddyliwch am y canlynol:**

- Oes gennych chi syniad am eich swydd ddelfrydol?
- Hoffech chi weithio i gwmni "corfforaethol" mwy, neu fusnes bach neu ganolig?
- Hoffech chi wneud gwaith mwy ymarferol neu ddamcaniaethol?

## Blwyddyn mewn Diwydiant

- Mae llawer o'r wybodaeth rydym yn ei darparu wedi dod yn uniongyrchol gan ein myfyrwyr. Rydym yn cadw golwg ar lwyddiannau ein myfyrwyr ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella'r gwasanaeth i chi!
- Mae gennym gronfa ddata fawr o leoliadau byw, cwmnïau y gallwch gyflwyno cais damcaniaethol iddynt a deall eu prosesau recriwtio. Gall hyn roi mantais i chi wrth gyflwyno cais: **https://fse-employability.swan.ac.uk/ job-adverts**
- Er mwyn parhau â'r safon uchel o gymorth rydym yn ei roi i chi, mae angen i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd eich cais a rhannu eich mewnwelediadau o'ch profiad: **https://fse-employability.swan.ac.uk/ employability-skills**

## Cyflogaeth graddedigion

- Pan fyddwch yn dod o hyd i swydd i raddedigion, cymerwch yr amser i roi gwybod i ni, gan ei bod yn hanfodol ein bod yn cadw golwg ar hynt ein myfyrwyr. Mae hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:
- Eich gwahodd chi a'ch cwmni yn ôl i'r Brifysgol
- Cael cyngor i fyfyriwr sy'n cyflwyno cais i'ch cwmni
- Meithrin ein rhwydwaith diwydiannol.

## Blwyddyn mewn Ymchwil Gymhwysol

- Mae'r cynllun hwn yn arddangos i fyfyrwyr bynciau ymchwil mewn maes ymchwil penodol, ac yn rhoi gwerthfawrogiad o'r pynciau hynny iddynt.
- Meithrin sgiliau maes/labordy sy'n benodol i'r ddisgyblaeth
- Bydd cyfleoedd blwyddyn mewn ymchwil gymhwysol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a gellir eu gweld yma: https://fse-employability.swan.ac.uk/job-adverts

Ydych chi'n falch o'ch prifysgol? Cadwch eich manylion cyswllt yn gyfredol ar borth y cyn-fyfyrwyr yma: https://www.swansea.ac.uk/cy/cyn-fyfyrwyr/cadwch-mewn-cysylltiad/diweddarwch-eich-manylion-cyswllt/

- ☐ **WEDI CWBLHAU'R CWRS DATBLYGU GYRFA WEDI**
- ☐ **SICRHAU CYFLOGAETH**
- ☐ **WEDI DIWEDDARU PROFFIL LINKEDIN**


I ddarganfod mwy am eich cryfderau a'ch addasrwydd am swydd, cwblhewch Gwrs Datblygu Gyrfa Academi Cyflogadwyedd Abertawe. Bydd yn rhoi syniad da i chi o ba rolau rydych yn fwyaf addas ar eu cyfer a hefyd yr hyn y mae angen i chi weithio arno i fod yr ymgeisydd perffaith ar gyfer eich swydd ddelfrydol.
Rhagor o wybodaeth ar gael yma: **https://fse-employability.swan.ac.uk/job-adverts**


# Yr Amserlen Recriwtio

**Blwyddyn recriwtio nodweddiadol:**

- Proffil LinkedIn
- CV
- Llythyr Eglurhaol

Beth gallwch fod yn ei ddatblygu (gwyrdd)
Pa gymorth mae'r Coleg yn ei ddarparu i chi (Glas)
Cyfnod Arholiadau (Coch)




Cyfnod Ceisiadau Pellach
Arholiadau
Daliwch ati! Yn aml iawn bydd myrfyrwyr yn dod o hyd i leoliadau gwaith neu swyddi dros yr haf!
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mehefin
Medi
Blwyddyn Mewn Diwydiant Sesiynau CV
Gwersyll Boot Datblygu Gyrfa
Blwyddyn Mewn Diwydiant Sesiwn Cyn-leoli

# Rhwydweithio

Cewch gyfle i rwydweithio mewn nifer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu gan Dîm Cyflogadwyedd y Coleg Peirianneg. Edrychwch ar rai o'n awgrymiadau ar gyfer rhwydweithio isod:

**BYDDWCH YN NATURIOL**

Dylid ystyried rhwydweithio fel gosod y garreg sylfaen ar gyfer perthynas ffrwythlon (gobeithio). Mae recriwtwyr a chynrychiolwyr cwmnïau'n mynd i ddigwyddiadau gyrfaoedd er mwyn cwrdd â myfyrwyr, felly peidiwch â bod yn swil am siarad â nhw. Peidiwch â cheisio bod y person rydych chi'n meddwl y mae eraill eisiau cwrdd ag ef. Y dull gorau yw cyflwyniad glân, syml wedi'i ddilyn gan sawl cwestiwn.

**GOFYNNWCH GWESTIYNAU**

Y ffordd orau o greu argraff ar gyflogwr posibl yw ymddangos yn frwdfrydig ac â gwir ddiddordeb yn ei gynnyrch neu ei wasanaeth. Bydd angen i chi ofyn digon o gwestiynau pwrpasol iddynt a gwrando ar eu hymateb. Gyda hyn mewn golwg, mae cylchgrawn Forbes yn credu ei bod bob amser yn well cerdded i ffwrdd o sgwrs ar ôl gadael i'r person arall siarad mwy nag y gwnaethoch chi. Yn eu profiad nhw, byddai hyn yn eich galluogi i gynllunio a gweithredu'ch camau nesaf yn well (p'un ai drwy e-bost neu fath arall o gyfathrebu). Yn hytrach na siarad am eich hunan, os ydych chi'n dangos diddordeb gwirioneddol mewn person arall gallai hynny ddweud mwy amdanoch chi. Fodd bynnag, mae'n bwysig osgoi cwestiynau sy'n rhy wleidyddol neu'n wrthwynebol, neu gwestiynau y bydd y person rydych chi'n ei ofyn yn annhebygol o allu eu hateb, e.e. cwestiynau ar faterion technegol neu arbenigol iawn. Efallai y byddwch am gael eich ystyried yn glyfar neu'n wybodus, ond gallech ymddangos fel broliwr neu rywun sy'n ceisio dal y cyflogwr ar ei fai.

**YMCHWILIWCH, YMCHWILIWCH, YMCHWILIWCH**

Dyma'r rheol allweddol ar gyfer pob digwyddiad sy'n seiliedig ar gyflogadwyedd. Os yw'n ffair yrfaoedd, bydd y Brifysgol yn cyhoeddi'r cyfranogwyr ymlaen llaw. Cymerwch ychydig o amser i ymchwilio i'r cwmnïau sy'n cyfranogi ymlaen llaw a pharatoi cwestiynau i'w gofyn. Mae'n well ceisio gofyn cwestiynau mwy manwl am y cwmni na'r rhai y gallech eu hateb eich hun drwy chwiliad syml neu wrth chwilota'n gyflym ar ei wefan.

**AWGRYMIADAU I BOBL FEWNBLYG**

Os ydych chi'n nerfus, mae TargetJobs yn awgrymu paru gyda chyd-fyfyriwr a mynd at gyflogwyr gyda'ch gilydd. Gallech hyd yn oed ofyn i un o'r trefnwyr a allent eich cyflwyno. Os yw'r profiad yn rhy frawychus neu lethol, cofiwch neilltuo pum munud o amser tawel. Dylai'r profiadau hyn, os yn ddilys, deimlo'n bleserus yn hytrach na thasg.

**CADWCH Y FFÔN ALLAN O'R GOLWG**

Mae defnyddio'ch technoleg pan fyddwch chi i fod i ymgysylltu â chyflogwyr mewn perygl o edrych yn anghwrtais. Os ydych chi am gymryd nodiadau ar eich dyfais, gofynnwch a yw hynny'n iawn yn gyntaf fel bod y cyflogwr yn gwybod mai dyna rydych chi'n ei wneud. Fel arall, efallai y byddant yn tybio eich bod wedi diflasu ac nid oes gennych ddiddordeb.

Ceir rhagor o awgrymiadau ar y dudalen ganlynol:
myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd/recriwtio/rhwydweithio/

**CWESTIYNAU RHWYDWEITHIO: ENGHREIFFTIAU**

- Beth rydych yn ei wneud?
- Pa mor hir ydych chi wedi gweithio i 'gwmni X'?
- Sut wnaethoch chi sicrhau eich rôl yng 'nghwmni x'?
- A yw eich sefydliad yn cymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau fel hyn?
- Pa gyngor byddech chi'n ei roi i rywun sy'n chwilio am leoliad gwaith/swydd i raddedigion?
- Fel cyflogwr, beth yw'r tri pheth pwysicaf rydych yn chwilio amdanynt mewn rhywun ar interniaeth/mewn swydd i raddedigion?
- Beth ydych chi'n ei ddisgwyl gan gydweithiwr yn ystod ei dri mis cyntaf yn y gwaith?
- Pe baech yn dechrau eich gyrfa eto, beth byddech yn ei wneud yn wahanol?
- Beth yw cynnwys diwrnod gwaith arferol yn eich swydd a'ch sefydliad?

# CVs

Am wybodaeth a chanllawiau mwy manwl i wneud y mwyaf o'ch CV, ewch i Adran CV ein safle Cyflogadwyedd yma:

fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills/cv-writing

### Pam mae angen CV arnoch?

Eich CV yw'r ddogfen bwysicaf y byddwch yn ei chreu. Dylid teilwra eich CV i bob swydd rydych yn cyflwyno cais amdani. Mae cyflogwyr yn ei ddefnyddio i weld a ydych chi'n addas iddyn nhw. Gallwch hefyd ei ddefnyddio i gysylltu â chwmni. Fel arfer, bydd angen CV ar unrhyw fath o gyflogaeth.

### Sut ydych chi'n gwella eich CV?

Dangoswch eich cryfderau, eich sgiliau a sut rydych chi'n addas am y swydd rydych chi'n cyflwyno cais amdani:

Dylech ei gwneud hi'n hawdd i'r cyflogwr ddarllen a chymharu â'r rhinweddau y mae'n chwilio amdanynt mewn ymgeisydd perffaith

Dylech ei dargedu i'r cyflogwr, ond hefyd i'r rôl rydych chi'n cyflwyno cais amdani

### Sut dylech chi strwythuro eich CV?

Gall strwythur CV amrywio, er enghraifft, fel myfyriwr nid oes disgwyl i chi feddu ar lawer iawn o brofiad a gall addysg ddod yn gyntaf. Pan fyddwch yn ennill rhywfaint o brofiad mae'n ddoeth fel arfer roi'r adran honno cyn yr adran addysg; ar gyfer swydd i raddedigion, bydd gan bob ymgeisydd radd.
Gall cyflogwyr dreulio cyn lleied â 10 eiliad yn sganio'ch CV, felly mae eglurder yn hanfodol.

## Awgrymiadau Gwych

- Ysgrifennwch am yr hyn y mae cyflogwr yn dymuno ei ddarllen
- Gwnewch eich cynllun yn glir ac yn gyson
- Cadwch eich CV yn gryno
- Uchafswm o 2 dudalen (A4)
- Mae pwyntiau bwled yn gwneud sganio'n hawdd
- Dylech deilwra eich CV i bob cwmni rydych yn cyflwyno cais iddo
- Dylech chi ddiweddaru, adolygu a newid eich CV bob amser

**CADWCH EICH CV YN GYFREDOL, DIWEDDARWCH EF BOB CHWARTER!**

### Myfyrwyr Blwyddyn mewn Diwydiant:

Cyflwynwch eich CVs i'r tîm; byddant yn ei adolygu a'i anfon yn ôl atoch. Gwnewch newidiadau a'i ailgyflwyno ar gyfer adolygiad terfynol.

### Arddull

- Defnyddiwch iaith broffesiynol a pheidiwch â defnyddio byrfoddau amwys
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r un amser gramadegol drwyddi draw
- Dangoswch eich hun â phositifrwydd a geiriau gweithredu sy'n ymwneud â sgiliau allweddol
- Amlygwch gyflawniadau/lwyddiannau allweddol

### Dylunio

- Dylid cadw CV creadigol ar gyfer swydd greadigol
- Mae ffontiau haniaethol yn anodd eu darllen ac yn edrych yn anniben
- Peidiwch â defnyddio gormod o liwiau gan y gall hyn ymddangos yn amhroffesiynol

### Hyd

- Hyd safonol CV yw 2 dudalen (A4)
- Efallai gofynnir am CV 1 dudalen o hyd
- Mewn rhai gwledydd mae'r arddull yn wahanol

### Trefn

- Mae cyflogwyr yn edrych ar yr adran uchaf ac yn tueddu i sganio i lawr ochr chwith y dudalen

### Penawdau

- Dylid defnyddio penawdau clir mewn print trwm
- Peidiwch â defnyddio pennawd heb ddiben
- Os ydych chi am ychwanegu diddordebau, gwnewch nhw'n ddiddorol ac nid yn generig

### Cynnwys

- Dylai eich CV ddangos beth rydych wedi'i gwblhau bob blwyddyn
- Gwnewch yn siŵr bod manylion cyswllt yn gywir a bod cyfeiriad e-bost proffesiynol yn cael ei ddefnyddio

### Ffontiau

- Mae'n well defnyddio Arial, Calibri neu Times New Roman gan eu bod yn hawdd i'w darllen; dylid osgoi Comic Sans

# CV Enghreifftiol

Manylion cyswllt: **Nid** oes angen dyddiad geni, statws perthynas na rhywedd

2 dudalen lawn

Roger Davidson

123620@abertawe.ac.uk
01299 67890

21ThameAve
Leigh-on-Sea
Essex, SS9
2XQ

Yn gryno!

Yn gryno!

Amlinellwch eich sgiliau allweddol

Unigolyn rhesymegol, gweithgar a hunan-gymhellol sy'n chwilio am leoliad gwaith diwydiannol yn ystod rhaglen radd y brifysgol i ychwanegu profiad gwaith at wybodaeth academaidd. Mae'n gweithio'n dda fel rhan o dîm neu'n unigol, bob amser yn cadw at derfynau amser ac yn helpu eraill, yn ôl yr angen.

Yn nhrefn amser am yn ôl

## Addysg

Medi 2016 i'r presennol — Myfyriwr Peirianneg Dylunio Cynnyrch (BEng), Prifysgol Abertawe

Cyfartaledd Blwyddyn 1: 70%. Cyfartaledd Blwyddyn 2 hyd yma 75%.
Mae deunydd craidd y cwrs yn cynnwys Dylunio Cynnyrch, Thermodynameg, Mecaneg, Mecaneg Hylif, Technoleg Gweithgynhyrchu, Ymwybyddiaeth Amgylcheddol, ac Astudiaethau Arbrofol.

Rhestrwch fodiwlau craidd/pwysig
Nid oes angen codau modiwlau yma

Medi 2014 - Gorffennaf 2016 — Safon Uwch, Southcold High School for Boys Grammar School

Mathemateg (A), Dylunio Cynnyrch (A), Astudiaethau Cyffredinol (A), Ffiseg (B), Cemeg (B), Ffrangeg (B – **Safon UG** yn unig)

Medi 2009 - Gorffennaf 2014 — TGAU, Southcold High School for Boys Grammar School

5 A* (Mathemateg, Ffiseg, Cemeg, Daearyddiaeth, Deunyddiau Gwrthsafol)
5 gradd A (Llenyddiaeth Saesneg, Ystadegau, Bioleg, Ffrangeg, Addysg Grefyddol) 2 radd B (Lladin, Iaith Saesneg)

Nid oes angen rhestru pob TGAU

## Profiad

Gorffennaf 2015 - Medi 2017 — Halfords Group Plc, Mecanydd Beiciau a Chynorthwy-ydd Gwerthiannau Rhan-amser

Cyflawni dyletswyddau technegol a gweinyddol. Datblygais sgiliau mewn cysylltiadau cwsmeriaid, cyfrannais at fusnes llwyddiannus a gwnes i gydosod beiciau yn annibynnol i safonau uchel. Cyfrannais at waith rheoli staff a stoc drwy drefnu amserlenni a chodi archebion ar gyfer nwyddau traul y gweithdy.

Gorffennaf 2016 - Awst 2016 — Benson Lund (is-adran o Ipeco Holdings Ltd)

Wedi cysgodi yn Swyddfa Ddylunio Benson Lund am dair wythnos a chyfrannu at honno, ac am wythnos ar y Llinell Gynhyrchu. Dyluniais gydrannau â systemau modelu CAD 2D a 3D (CoCreate OneSpace Design), gwnes i ddiweddaru dogfennaeth ddylunio ac argraffu a chyhoeddi lluniadau technegol. Cefais wybodaeth am Gynlluniau Prawf Tân a Safonau Teilyngdod Aer. Ar lawr y siop, cysgodais weithrediad gweithgynhyrchu cydrannu i ddeall sut y defnyddiwyd lluniadau a gynhyrchais.

Amlygwch eich cyfrifoldebau

Dangoswch sgiliau allweddol a menter

## Rolau â Chyfrifoldebau

Medi 2016 i'r presennol — Trysorydd Clwb Mynydda Prifysgol Abertawe

Rheoli arian y clwb a bod yn rhan o bwyllgor y clwb. Gwnes i wella o ran gweithio fel rhan o dîm tuag at dargedau penodol. Rwy'n trefnu fy amser i gydbwyso dyletswyddau'r pwyllgor a gwaith prifysgol. Fel aelod o'r pwyllgor, rwy'n gyfrifol am ddiogelwch aelodau'r clwb rydym yn mynd â nhw i fynydda ac am addysgu sgiliau i aelodau newydd sy'n angenrheidiol iddynt er mwyn cymryd rhan. Rwy'n dangos parodrwydd i helpu eraill a gweithio mewn tîm.

Dangoswch CAR (tudalen 25)

Hydref 2012 i'r presennol Arweinydd Cybiaid

Gan wirfoddoli fel arweinydd Cybiaid, rwy'n cynllunio ac yn cynnal cyfarfodydd unwaith yr wythnos. Mae hyn yn foddhaol o ran gweld pobl ifanc yn datblygu eu potensial o dan fy arweiniad i, ac o ran gwella fy sgiliau trefnu hefyd.

Medi 2015 - Gorffennaf 2016 Capten Ysgol

Goruchwyliais dîm o 39 swyddog. Cynrychiolais yr Ysgol ar achlysuron ffurfiol fel gorymdeithiau Diwrnod y Cofio, arwain darlleniadau mewn gwasanaethau yn ogystal â bod yn fodel rôl cadarnhaol. Yn sgîl hyn gwnes i feithrin sgiliau a gwybodaeth o ran trefnu tîm yn effeithiol, cyfathrebu, diplomyddiaeth a siarad yn gyhoeddus. Rwyf bellach yn unigolyn mwy hyderus ac agos atoch o'm profiadau yn y rôl hon.

Medi 2014 - Gorffennaf 2016 Cadeirydd Cyngor yr Ysgol

Gwnes i gynnal tasgau datrys problemau byd go iawn gyda'r tîm wrth wrando ar farn pobl eraill.

## Diddordebau personol

**Beicio Mynydd.** Mae beicio mynydd wedi bod yn un o'm prif ddiddordebau ers dros 10 mlynedd. Rwy'n mwynhau adeiladu fy meiciau fy hun gan ddefnyddio gwybodaeth a gefais wrth weithio yn Halfords. Mae beicio hefyd yn fy nghadw'n heini ac yn iach.

**Dringo creigiau.** Fel rhan o Glwb Mynydda Prifysgol Abertawe, rwy'n gyfrifol am fy niogelwch i a diogelwch pobl eraill. Mae dringo yn gofyn am gryfder corfforol a meddyliol yn ogystal â sylw i fanylion.

**Ffotograffiaeth.** Dechreuodd fy niddordeb mewn ffotograffiaeth drwy dynnu lluniau o sioeau byw a bywyd gwyllt. Rwyf bellach yn ei ymestyn i'm gwaith dylunio, gan arddangos syniadau a chynhyrchion dylanwadol.

**Cerddoriaeth.** Rydw i wedi bod yn canu'r gitâr bas mewn band ers tair blynedd. Gwnaethon ni recordio EP (2017) a chwarae mewn nifer o gigs. Mae hyn yn gofyn am y gallu i weithio gyda phobl eraill a gwrando arnynt er mwyn cyflawni amcan. Rydw i hefyd yn mwynhau canu'r gitâr a'r iwcalili

## Dyfarniadau

- Wedi cwblhau **Gwobr Arian Dug Caeredin**. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio tuag at y Wobr Aur. Yn ystod y wobr hon, dysgais lawer iawn am weithio mewn tîm, sgiliau unigol a rhyngweithio ag aelodau eraill o'r tîm.
- Enillais dlws am y '**Chwaraewr Cyffredinol Mwyaf Eithriadol**' yn yr ysgol, yn seiliedig ar fy llwyddiannau a'm hagwedd.
- Trwydded yrru lawn a glân yn y DU. Swyddog Cymorth Cyntaf Cymwys. Aelodaeth myfyriwr o'r IMechE.

## Geirdaon

| | |
|---|---|
| Dr J D Johnson (Tiwtor Lefel 1/2) Y Coleg Peirianneg<br>Prifysgol Abertawe<br>Abertawe<br>SA1 8PP<br>01792 29557<br>j.d.johnson@abertawe.ac.uk | Mr Mark Smith<br>Rheolwr<br>Cyffredinol<br>Halfords<br>Y Stryd Fawr<br>Abertawe<br>0844 4717 1752<br>mksmith@.demon.co.uk |

Defnyddiwch 'Eiriau Gweithredu

Penawdau a theitlau clir

Defnyddiwch bwyntiau bwled lle bo'n bosibl

Peidiwch â dweud "Ar gael ar gais"

Dangoswch sgiliau trosglwyddadwy

Dangoswch weithgareddau allgyrsiol

Dangoswch ymroddiad

Gofynnwch cyn nodi enwau

# LinkedIn

## Beth yw LinkedIn?

LinkedIn yw'r rhwydwaith cymdeithasol ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Mae cyflogwyr yn ei ddefnyddio i sgrinio ymgeiswyr ar gyfer swyddi ac mae hefyd yn offeryn marchnata gwych ar gyfer busnes mawr sydd â rhwydwaith mawr.

## Pam mae angen cyfrif arnaf?

Mae'n fwyfwy poblogaidd flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae tua 400 miliwn o ddefnyddwyr. Bydd yn eich galluogi i ryngweithio â chyflogwyr posibl a sefydlu eich hun yn y diwydiannau y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Eich proffil yw eich ôl troed proffesiynol ar-lein, sydd ar gael i'r holl ddefnyddwyr ei weld.

## LinkedIn i Fyfyrwyr

Mae gan LinkedIn amrywiaeth o diwtorialau i chi greu eich proffil. Mae'n rhoi rhestr wirio i chi o'r hyn y dylech ei gynnwys ac yn sgorio eich proffil yn seiliedig ar ba mor gyflawn ydyw.

## Rhwydweithio

Rhaid i chi fod yn weithgar a chymryd yr amser i ddiweddaru'ch proffil a meithrin eich rhwydwaith. Chwiliwch am: gwmnïau, cydweithwyr, cyd-fyfyrwyr a phobl sydd â swyddi rydych chi eu heisiau, neu'n gweithio mewn diwydiannau rydych chi'n eu targedu.

## Targedau

Meddyliwch am beth rydych chi am ei roi ar eich proffil LinkedIn yn y dyfodol. Pa fath o bethau mae pobl eraill wedi'u hysgrifennu yr hoffech chi eu hysgrifennu eich hun?

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

## Awgrymiadau Gwych

- Defnyddiwch lun proffesiynol yn ddelfrydol, pen ac ysgwyddau ar gefndir clir
- Disgrifiwch eich profiad yn glir (rolau swydd a chyflawniadau)
- Cynnwys hanes eich addysg
- Cynnwys gwaith gwirfoddoli
- Rhestrwch sgiliau allweddol
- Gofynnwch am gymeradwyaeth ac

Cofiwch ymuno â thudalen LinkedIn y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg i gael y newyddion, y digwyddiadau a'r swyddi gwag diweddaraf. Gallwch hefyd ymuno â grwpiau penodol ar gyfer y blwyddyn mewn diwydiant, y blwyddyn mewn ymchwil gymhwysol neu os ydych chi yn eich blwyddyn olaf.

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………

## Rhestr Wirio:

- Oes gennych chi lun proffil proffesiynol? ☐
- Ydych chi wedi cynnwys manylion am eich cwrs gradd ar eich tudalen? ☐
- Ydych chi wedi cwblhau profiad gwaith perthnasol? ☐
- Ydych wedi ychwanegu unrhyw hyfforddiant, dyfarniadau, ieithoedd neu gymwysterau ychwanegol? ☐
- Ydych chi'n aelod o'ch corff llywodraethu diwydiannol? ☐
- Ydych chi wedi rhoi dolen yn eich CV i'ch proffil LinkedIn? ☐
- Ai "All-Star" yw eich proffil chi? ☐
- Ydych chi'n diweddaru'ch proffil LinkedIn yn ☐
- rheolaidd? Ydych chi wedi ymuno â grŵp LinkedIn eich pynciau? ☐

# Llythyron Eglurhaol

### Pam mae angen llythyr eglurhaol arnoch?

Mae llythyr eglurhaol yn ffordd o dynnu sylw cyflogwr at eich cais a'i annog i gyfweld â chi.
Y ddau brif bwynt i fynd i'r afael â nhw yw:

a) Pam mae gennych ddiddordeb yn y swydd
b) Pam rydych chi'n addas

## Sut gallwch chi baratoi llythyr eglurhaol?

Fel gyda'ch CV, mae ymchwil yn bwysig a dylid teilwra eich llythyr eglurhaol i bob cais. Ni ddylech ddefnyddio templed oherwydd gall cyflogwyr adnabod hynny. Dylech chi ddarllen gwefan y cwmni, dod o hyd i erthyglau a meithrin eich gwybodaeth (gall hyn hefyd helpu ar gyfer cyfweliadau). Darllenwch yr hysbyseb swydd eto gan y gallai roi cliwiau am yr hyn y dylech sôn amdano yn eich cais.

## Sut gallwch chi strwythuro'ch llythyr eglurhaol?

Gellir ei rannu'n 4 adran allweddol

- Cyflwyniad: Pwy ydych chi a beth rydych chi ei eisiau, soniwch am yr hyn rydych chi'n ei astudio a bod eich CV wedi'i atodi.
- Amdanoch chi: Pam rydych chi'n berffaith ar gyfer y rôl? Cymharwch eich hun â'r disgrifiad swydd, sut rydych chi'n ticio'r bocsys, pam rydych chi'n addas ar gyfer y cwmni.
- Ynglŷn â'r rôl/y cwmni: Pam rydych chi eisiau'r rôl, eglurwch mai dyma'r unig gwmni rydych chi am weithio iddo, yr hyn a wnaeth eich denu, dangoswch eich bod wedi ymchwilio.
- Datganiad cloi: Dewch i ddiwedd-glo, gorffennwch â sylw cwrtais fel "Byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod fy nghais â chi ymhellach".

## Sut dylwn i drefnu'r llythyr?

- Dylai fod ar un ochr o bapur A4
- Dylai fod ar ffurf llythyr gywir
- Ceisiwch gyfarch y derbynnydd â'i enw (mae'n edrych yn well na Syr/Fadam)

Am wybodaeth a chanllawiau mwy manwl i wneud y mwyaf o'ch llythyr eglurhaol, ewch i'n gwefan Cyflogadwyedd **https://fse-employability.swan.ac.uk/ employability-skills/cover-letters**

### Rhestr Wirio:

- ☐ Ydych chi wedi ysgrifennu llythyr eglurhaol?
- ☐ Ydych chi wedi cael rhywun i adolygu eich llythyr
- ☐ eglurhaol? Ydych chi wedi cael unrhyw adborth cychwynnol?
- ☐ Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau?

### Myfyrwyr Blwyddyn mewn Diwydiant:

Cyflwynwch eich llythyr eglurhaol i'r tîm, byddant yn ei adolygu a'i anfon yn ôl. Gwnewch newidiadau a'i ailgyflwyno ar gyfer adolygiad terfynol!

Dylech chi gynnwys enw, swydd a chyfeiriad llawn yr unigolyn

Wrth ddefnyddio Mr/Mrs, defnyddiwch "Yr eiddoch yn gywir"

Wrth ddefnyddio Syr/Fadam, defnyddiwch "Yr eiddoch yn gywir

Dangoswch wybodaeth dda am y cwmni

Tynnwch sylw at y sgiliau a'r profiadau allweddol sydd gennych i'w cynnig a sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf yn y Disgrifiad Swydd

Os ydych chi am iddynt ystyried rhywbeth, rhowch wybod am hynny yma

Nodwch ble welsoch chi'r hysbyseb swydd

Cyflwynwch eich hun

Amlinellwch yr hyn sy'n eich denu i'r rôl, gan ddangos eich bod wedi gwneud eich ymchwil

Trafodwch brofiad gwaith perthnasol

Ychwanegwch pan fyddwch ar gael ar gyfer cyfweliad ac i weithio

---

Mrs L. Howard Rheolwr
Recriwtio Dawn Mott
MacDonald Tŷ Fitzalan
Caerdydd
CF24 5CC

Jean
Davies
Heol Clive
Treganna
Caerdydd
CF24 0EL

27 Hydref 2019

Annwyl Mrs Howard,

Gweler fy CV wedi'i atodi mewn ymateb i'r lleoliad gwaith Blwyddyn mewn Diwydiant a hysbysebwyd ar wefan Mott MacDonald (Cyf. 21315). Dysgais am y rhaglen Lleoliadau Gwaith Blwyddyn Ryngosod pan roeddwn yn bresennol am gyflwyniad Mott MacDonald ar 4 Hydref ym Mhrifysgol Abertawe.

Rwy'n fyfyriwr israddedig yn fy ail flwyddyn ym Mhrifysgol Abertawe yn astudio ar gyfer MEng mewn Peirianneg Sifil. Mae'r cwrs wedi ysgogi fy niddordeb mewn helpu i wneud y gymuned fyd-eang yn lle mwy disglair, gwell a mwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Rwy'n awyddus i gymryd rhan mewn profiad gwaith ac yn awyddus i ennill gwybodaeth a phrofiad wrth weithio'n galed ar y tasgau a roddir i mi. Mae fy nghwrs wedi atgyfnerthu fy argyhoeddiad bod dŵr yn adnodd y dylid ei reoli'n ofalus, ac rwyf am gyfrannu at ddatrys yr her fyd-eang hon.

Rwy'n ymwybodol o'r gwaith a wneir gan Mott McDonald ym maes rheoli dŵr o dan y fenter MMB ar y cyd, a fyddai'n gyfle gwych i mi weithio gyda chi yn unol â gwerthoedd yr ydym yn eu rhannu. Mae presenoldeb byd-eang Mott McDonald a'i gyfraniad, fel prosiect glanweithdra dŵr Indonesia, yn cyd-fynd â'm huchelgeisiau gyrfaol o ran gwerthoedd ac effaith.

Byddwch yn gweld o'm CV ynghlwm fod gen i brofiad gwaith gydag elusen. Drwy fy ngwaith gwirfoddol, dysgais gall pawb chwarae eu rhan wrth wneud y byd hwn yn lle gwell, ni waeth pwy ydych chi, a gall peirianwyr sifil chwarae rhan allweddol yn yr ymdrech hon. Dysgais i fod yn hyblyg ac yn addasadwy felly, o ran yr amgylchedd rwy'n byw ac yn gweithio ynddo, i wneud y gorau o allbwn y tîm. Rwyf wedi rhagori mewn mecaneg hylif, mecaneg pridd a gwaith prosiect fel y gwelir gan y graddau ar fy CV. Rwy'n hyderus bod fy llythrennedd cyfrifiadurol yn bodloni'r gofyniad am y swydd gan fy mod wedi dysgu defnyddio BIMs, rhaglennu gwyddonol a phecynnau swyddfa ar gyfer adroddiadau a chyfathrebu.

Byddwn yn falch iawn o ddod i gyfweliad ar gyfer y cais hwn a gellir cysylltu â mi drwy e-bost neu dros y ffôn. Sylwer bod gennyf arholiadau yn ystod tair wythnos gyntaf mis Ionawr, a byddai'n well gen i osgoi cyfweliad yn ystod yr adeg honno, ond byddwn yn gwneud pob ymdrech i ddod i gyfweliad pe na bai modd osgoi hynny.

Yn gywir

*Jean Davies*

## Awgrymiadau Gwych

- Ceisiwch ffonio'r cwmni am ragor o wybodaeth
- Cadwch gopi yn y Llawlyfr hwn i fynd ag ef i'ch cyfweliadau
- Bydd cyflogwyr yn gwerthuso eich proffesiynoldeb a'ch sylw i fanylion
- Mae dull ffurfiol yn well na dull anffurfiol
- Defnyddiwch frawddegau llawn, sillafu a gramadeg cywir
- Dyfynnwch ystadegau i ategu eich canlyniadau

# Ffurflenni Cais

## Sut rydych chi'n paratoi?

Mae ffurflenni cais yn dod yn elfen fwy poblogaidd o brosesau recriwtio a bydd 85% o gyflogwyr yn defnyddio'r dull hwn. Maen nhw wedi'u cynllunio i gael gwared ar wybodaeth amherthnasol. Maen nhw hefyd yn ei gwneud hi'n haws i gyflogwyr gymharu ceisiadau. Mae'n ddewis arall i CV a gall ofyn am wybodaeth ychwanegol i'ch CV.

- Sicrhewch eich bod yn darllen y cyfarwyddiadau a'r dogfennau sydd ynghlwm cyn dechrau.
- Gwiriwch a yw'r ffurflen yn gofyn i chi ei llenwi i gyd ar yr un pryd, neu a oes modd ichi ddychwelyd ati'n nes ymlaen. Ni fydd rhai yn caniatáu ichi olygu ateb a gyflwynwyd yn flaenorol, felly efallai y byddai'n werth llunio drafft yn Microsoft Word ymlaen llaw.
- Mae'n rhaid i chi gasglu gwybodaeth am y cwmni rydych chi'n cyflwyno cais amdano.
- Gofynnwch i chi'ch hun pa sgiliau, profiad, gwybodaeth a nodweddion y mae'r cyflogwr yn chwilio amdanynt. Yn eich atebion, dangoswch yn glir sut rydych chi'n bodloni'r gofynion hyn.
- Cadwch gopi o'ch ffurflen gais i gyfeirio ato cyn y cyfweliad.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos yn glir sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf yn y Disgrifiad Swydd.

## Sut maen nhw'n cael eu strwythuro?

Ar-lein: y ffordd fwyaf cyffredin ar gyfer recriwtio myfyrwyr. Mae gan rai ceisiadau ar-lein brofion yn rhan ohonynt (tudalen 26).

Electronig: gellir lawrlwytho'r ffurflen o wefan y cyflogwr neu ddolen e-bost, gallwch ei chwblhau a'i hatodi mewn e-bost.

Argraffedig: mae'r rhain yn brin; gall cyflogwyr bostio cais i chi ei lenwi â llaw a'i ddychwelyd drwy'r post. Peidiwch â'i lenwi cyn drafftio ymatebion. Gwnewch lun-gopi cyn i chi ddechrau.

## Beth gallwch ei ddisgwyl?

- Cwestiynau ar sail cymhwysedd
- Cwestiynau byr a chryno
- Cwestiwn ar sail astudiaeth achos
- Cwestiwn sy'n ymwneud â'r rôl
- Cwestiynau amlddewis

Allwch chi feddwl am enghreifftiau?

……………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………

# Rheoli Ceisiadau

## Trosolwg

- Mae pethau pwysig i'w hystyried ar draws y broses hon. Ar adegau, daw dysgu sut i ddod yn fwy cyflogadwy o brofiad.
- Mae'n bwysig ymgeisio am gynifer o swyddi â phosibl sy'n addas i chi; mae hyn oherwydd y bydd cyflogwyr, yn amlach na pheidio, yn cael eu llethu â cheisiadau ac efallai na fyddant yn ymateb i bob un ohonynt.
- Gwnewch gais i bob swydd lle rydych chi'n teimlo y byddwch chi'n ffynnu, heb aros am ymatebion, ond cofiwch bolisïau cwmnïau unigol lle mae nifer y swyddi y gallwch wneud cais amdanynt yn gyfyngedig weithiau.
- Mae ymdopi â gwrthod yn hanfodol er mwyn llwyddo; mae'n bwysig

cynnal eich hyder a'i ddefnyddio fel cyfle i gasglu adborth i wella'ch hun.

- Yn olaf, cymerwch sylw o'ch profiadau, da a drwg, er eich gwybodaeth chi yn y dyfodol. Eich profiad chi yw eich ased mwyaf gwerthfawr.

## Datganiadau Cefnogol

1. Rhaid dal sylw'r darllenydd â chyflwyniad cadarnhaol a brwdfrydig.
2. Sicrhewch fod eich cais yn onest ac yn gywir; dydych chi byth yn gwybod pryd y bydd cyflogwr yn ymchwilio i ddatganiadau rydych chi wedi'u gwneud.
3. Gwnewch i bob paragraff lifo'n dda a gwnewch i bob gair gyfrif.
4. Peidiwch â pharablu; byddwch yn glir ac yn gryno.
5. Rhowch resymau cryf pam rydych chi eisiau'r rôl hon.
6. Dangoswch eich cryfderau a'ch profiad.
7. Dangoswch eich bod yn gyfoes ar bynciau diwydiannol a materion cyfoes.
8. Darparwch dystiolaeth ar gyfer meini prawf hanfodol.

### Awgrymiadau Gwych

- Dylech arbed eich ceisiadau'n rheolaidd
- Dylech ei wneud mor hawdd i'w ddarllen â phosibl
- Atebion â phwyntiau bwled os oes angen
- Ewch mor agos at y terfyn geiriau â phosibl
- Gwiriwch nad yw'r sillafu wedi'i Americaneiddio
- Sicrhewch ei fod wedi'i brawf-ddarllen
- Peidiwch â bychanu'ch hun
- Cadwch gopïau o'r ceisiadau a'r dyddiadau a gyflwynwyd
- Defnyddiwch eiriau gweithredu

## Techneg Ysgrifennu CAR

Mae'r dechneg ysgrifennu CAR yn berthnasol i'ch datganiad ategol mewn cais am swydd. Dylech hefyd ei defnyddio i strwythuro'r testun am bob profiad a adroddir ar eich CV, a'ch atebion yn ystod cyfweliad.

Byddwch yn gryno.

Gallwch ymchwilio a defnyddio'r cynllun ysgrifennu manylach STAR(R) ond byddwch yn ofalus i gadw testun yn fyr ac yn gryno.

Canlyniad:

Ar CV, dogfennwch yr agweddau o ran perfformiad (wedi rhagori ar dargedau?), y sgiliau a ddatblygwyd gennych a'r adborth a gawsoch. Mewn cyfweliad, gwnewch yn siŵr bod hyn yn ateb y cwestiwn.

Mae gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe gyngor ar y broses ymgeisio hefyd:
https://myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd/recriwtio/ffurflenni-cais/

# Profion ar-lein

Am ragor o arweiniad ar brofion ar-lein, ewch i'n safle Cyflogadwyedd yma:
https://fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills/aptitude-tests

## Sut rydych chi'n paratoi?

Weithiau cyfeirir at y rhain fel profion seicometrig ac maen nhw'n dod ar sawl ffurf. Y ddau brif fath o brawf yw prawf personoliaeth a phrawf dawn. Y profion hyn fel arfer yw'r cam sgrinio terfynol cyn cyfweliad. Maen nhw'n profi cymeriad, sgiliau a gallu gwybyddol. Mae'r rhain yn dangos mwy am ymgeisydd na'i raddau'n unig.

Y ffordd orau o baratoi yw ymarfer a chymhwyso'r technegau cywir. Ceisiwch gysylltu â rhywun sydd wedi gwneud y profion o'r blaen. **Ymarfer gan ddefnyddio Profion Seicometrig Cwrs Datblygu Gyrfa ACA.** Cofiwch, gallwch chi ofyn i'r tîm am arweiniad bob amser!

## Rhesymu haniaethol?

Mae'r profion rhesymu haniaethol, llafar a rhifiadol yn gwirio'ch sgiliau a'ch galluoedd yn erbyn y rôl rydych chi'n ymgeisio amdani. Bydd y cyflogwr yn eich barnu ar feysydd fel meddwl yn feirniadol a rhesymu rhesymegol. Ar gyfer pob un o'r profion hyn, byddwch yn cael eich amseru dan amodau arholiad.

Mae profion haniaethol yn aml yn rhoi dwy set o siapiau i chi ac yn gofyn i chi pa set mae'r siâp dan sylw yn cyd-fynd â hi. Yn aml gall patrymau fod yn unrhyw beth sy'n ymwneud â'r siapiau, lliw, cysgod, onglau, ymylon, llinellau, neu gyfeiriad. Mae'n bwysig treulio amser yn deall y patrwm a pheidio â dyfalu na rhuthro eich atebion.

## Rhesymu Geiriol?

Mae'r prawf hwn yn aml yn rhoi darn o destun ac yna 4 cwestiwn am y darn. Yn aml y dechneg yma fyddai darllen drwy'r darn ac yna geisio ateb y cwestiynau. Mae'n bwysig cofio nad yw'r profion hyn bob amser wedi'u cynllunio i chi allu eu gorffen yn yr amser penodedig, ond yn hytrach i weld sut rydych chi'n ymdopi dan bwysau. Peidiwch â dyfalu atebion i gwestiynau er mwyn dod i ddiwedd y prawf.

## Rhesymu Rhifyddol?

Mae'r prawf hwn fel arfer yn brawf amlddewis; byddwch yn cael set o ddata naill ai mewn darn, tabl neu graff a gofynnir i chi wneud cyfrifiadau neu ddadansoddiad o'r data i gael yr ateb. Yn aml, unwaith eto, mae'n syniad da ymarfer sawl gwaith a sicrhau bod gennych gyfrifiannell wrth law. Bydd cymryd nodiadau a chymhwyso egwyddorion mathemategol sylfaenol i bob cwestiwn o fudd i chi. Mae'n debygol y byddwch yn dod ar draws cymarebau, canrannau, degolion a ffracsiynau, felly adolygwch yn barod amdanynt!

Bydd cymryd nodiadau drwy gydol yr amser o fudd mawr. Dylech gofio na fydd y prawf yn debygol o gael ei ddylunio fel y gallwch ei gwblhau'n gyfforddus yn yr amser penodedig, felly peidiwch â phoeni os na fyddwch yn cyrraedd y diwedd - glynwch wrth y dechneg a byddwch yn iawn.

## Prawf Barnu Sefyllfaoedd?

Fel arfer maen nhw'n gofyn i chi ddewis datganiad a fydd yn eich disgrifio orau. Nid oes ateb cywir nac anghywir yma; maen nhw'n ceisio deall sut y byddwch yn ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd a sut y gallwch ymgartrefu yn y cwmni a rôl y swydd benodol. Ni fyddai'n ddoeth ceisio dyfalu beth mae'r cyflogwr yn chwilio amdano, gan y bydd hyn yn drysu canlyniadau'r prawf ac ni fyddant yn rhoi adlewyrchiad cywir ohonoch chi.

## Adnoddau

- Chwiliwch am gyfleoedd i ymarfer ar-lein ar wefannau fel TargetJobs
- Profiling for Success (Cwrs Datblygu Gyrfa)
- Graduates First: www.graduatesfirst.com
- **https://fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills**

# Cyfweliadau

I gael gwybodaeth fanylach ac arweiniad ar gyfweliadau, ewch i'n safle Cyflogadwyedd yma:
**https://fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills/interviews**

## Cyfweliadau dros y ffôn

Dewiswch ystafell dawel heb ddim byd yn tynnu eich sylw (mae ystafelloedd arbenigol at y diben hwn yn Llyfrgell Campws y Bae)

- Sicrhewch fod signal ffôn da neu defnyddiwch linell sefydlog
- Sicrhewch fod eich CV o'ch blaen er mwyn cyfeirio ato'n hwylus
- Sicrhewch fod gennych fanylion y cwmni rydych yn gwneud cais iddo o'ch blaen; dewiswch bwyntiau allweddol o'u gwefan neu'r hysbyseb swydd a phan ofynnir i chi, gwerthwch yr wybodaeth honno yn ôl iddynt, a thrwy hynny brofi eich bod yn gwybod am y cwmni a'r hyn y maen nhw'n ei wneud ac unrhyw gynlluniau sydd ganddynt wrth symud ymlaen
- Gwrandewch ar y cwestiynau'n ofalus ac yna atebwch o fewn unrhyw derfyn amser a roddir i chi
  Rhowch yr 20 cwestiwn i ymarfer am y cyfweliad o'ch blaen gyda'ch atebion a phan fo hynny'n bosibl, defnyddiwch yr atebion enghreifftiol hyn

## Cyfweliadau Fideo

Efallai bydd yn rhaid i chi ateb cwestiwn sydd wedi'i recordio ymlaen llaw. Drwy ymarfer mwy, byddwch yn ymlacio mwy. Efallai byddant hefyd yn cynnwys cyfweliad wyneb yn wyneb dros Skype, neu efallai bydd yn rhaid i chi ateb cwestiwn wedi'i recordio ymlaen llaw gydag amser cyfyngedig i'w ateb.

Efallai rhoddir llawer o gyfleoedd i chi ail-recordio eich ateb neu efallai mai dim ond un cyfle a roddir i chi.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwisgo'n smart, bydd hwn yn bwynt asesu
- Cymerwch y cyfweliad mewn ystafell dawel lle na fydd dim yn tarfu arnoch
- Tacluswch y lle y tu ôl i chi fel na fydd y cyflogwr yn gweld annibendod/llanast/posteri
- Ydy'r golau'n addas? Oes gennych chi gysylltiad cryf â'r rhyngrwyd? Ydy'r amgylchedd yn dawel? A yw eich microffon neu'ch gwe-gamera yn gweithio? Defnyddiwch eich gwe-gamera i ymarfer drwy ffug gyfweliad

## Cyfweliadau wyneb yn wyneb

Mae'r ffurf hon o gyfweliad wedi mynd yn fwy prin yn ddiweddar, ac yn aml cynhelir y cyfweliadau yn swyddfeydd y cwmni. Gallech gael cyfweliad gydag un, dau neu dri unigolyn, efallai mwy. Mae'n debygol y bydd rheolwr sy'n recriwtio a chynrychiolydd Adnoddau Dynol yn bresennol.

- Edrychwch ar y cyfwelwyr wrth ateb y cwestiynau. Gan y bydd pawb yn monitro eich perfformiad, mae'n bwysig ymgysylltu â phawb.
- Defnyddiwch eich dwylo i fynegi eich atebion.
- Os byddant yn cynnig dŵr, derbyniwch y cynnig oherwydd y byddwch yn siarad llawer. Bydd modd i chi gymryd saib a byddwch yn cael cyfle i feddwl am sut rydych chi'n ateb cwestiynau.
- Peidiwch â bod ofn gofyn i'r cyfwelydd ailadrodd cwestiwn os oes angen eglurder arnoch neu er mwyn i chi gael mwy o amser i feddwl.
- Dylech chi ysgwyd dwylo'r cyfwelwyr ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfweliad a sicrhewch eich bod yn diolch iddynt am eu hamser pan fyddwch yn gadael.

- [ ] Ymchwiliwch i'r cwmni
- [ ] Paratowch atebion i'r  cwestiynau nodweddiadol ar y dudalen nesaf.
- [ ] Defnyddiwch Glassador, RateMyPlacement a thudalen Cyflogadwyedd y Coleg: engemployability.swansea.ac.uk/insights
- [ ] Strwythurwch atebion ar gyfer cyfweliadau drwy ddefnyddio 'CAR' neu 'STAR'.

Ceir rhagor o gyngor ar gyfweliadau yn:
https://fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills

# Cyfweliadau (yn parhau)

**Cymerwch reolaeth, byddwch yn barod! Dyma rai cwestiynau nodweddiadol ar sail cymhwysedd.**

### Cwestiynau ar sail cymhwysedd:

Gwelwch fod rhai cwestiynau'n cael eu defnyddio'n aml yn y rhan fwyaf o gyfweliadau. Dylai'r 20 cwestiwn isod eich helpu i baratoi ar gyfer pob math o gwestiynau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu eu hateb a bydd gennych ddeunydd yn barod ar gyfer y diwrnod.

### Chi a'ch CV

1. Pam gwnaethoch chi ddewis Prifysgol Abertawe a pha ffactorau a ddylanwadodd ar eich dewis?
2. Pam dewisoch chi bwnc eich gradd?
3. Beth yw eich cyflawniad mwyaf hyd yn hyn?
4. Beth yw eich hobïau/diddordebau chwaraeon a dywedwch wrthyf amdanynt?
5. Pa sgiliau cyfrifiadurol sydd gennych?
6. Beth yw eich cyflawniad mwyaf hyd yn hyn?

### Y Cwmni a'r Disgrifiad Swydd

1. Dywedwch wrthym am (y cwmni a beth rydym yn ei wneud)?
2. Beth gallwch chi ei gynnig i ni?
3. O'r fanyleb swydd, sut gallwch chi ychwanegu gwerth at yr hyn rydyn ni'n ei wneud?
4. Pam ydych chi eisiau'r swydd hon?

### Ugain cwestiwn nodweddiadol ar sail cymhwysedd mewn cyfweliad:

1. Disgrifiwch sefyllfa lle rydych chi wedi arwain tîm.
2. Beth yw'r nod pwysicaf i chi ei osod i'ch hunan yn y gorffennol? Beth wnaeth i chi lwyddo i'w gyflawni?
3. Dywedwch wrthym sut y gallech geisio cyfathrebu â rhywun arall nad yw'n hoff ohonoch chi yn bersonol?
4. Sut rydych chi wedi ymdrin â'ch astudiaethau i fod yn effeithiol gyda'ch gwaith trefnu a chynllunio personol?
5. Sut gallech chi ymateb pe byddai'n rhaid gwneud newidiadau sydyn i drefniadau yr oeddech wedi'u cynllunio'n ofalus?
6. Ydych chi wedi bod mewn sefyllfa waith lle roeddech chi'n teimlo nad oeddech chi'n gallu ymdopi â faint o waith a roddwyd i chi? Sut gwnaethoch oresgyn hyn?
7. Rhowch enghraifft o adeg pan roeddech chi'n teimlo y gallech chi ysgogi cydweithwyr neu gyfoedion i gyflawni nod?
8. Beth byddech chi'n ei wneud pe bai rhywun rydych chi'n dibynnu arno i'ch helpu chi i gyflawni nod yn eich siomi?
9. Ydych chi erioed wedi gorfod mynd i'r afael â thasg neu ddarn o waith ymchwil nad oeddech chi'n ei hoffi? Os felly, beth oedd hyn a sut gwnaethoch chi ymdrin ag ef?
10. Disgrifiwch sefyllfa y gwnaethoch chi ddangos menter ynddi.
11. Beth oedd eich rhwystr mwyaf?
12. Disgrifiwch adeg pan roedd gennych chi benderfyniad anodd i'w wneud.
13. Disgrifiwch sefyllfa lle gwnaethoch chi ddatrys problem.
14. Disgrifiwch sefyllfa lle roeddech chi'n cymryd cyfrifoldeb.
15. Beth rydych chi'n disgwyl y byddwch yn ei wneud ymhen pum mlynedd?
16. Beth yw eich gwendidau?
17. Beth yw eich cryfderau?
18. I bwy arall ydych chi wedi cyflwyno cais/gyda phwy arall mae gennych chi gyfweliad?
19. Rhowch enghraifft o gyfnod pan rydych wedi defnyddio sgiliau canfod ffeithiau i ddatrys problem - yna dywedwch wrthym sut gwnaethoch chi ddadansoddi'r wybodaeth i ddod i'ch penderfyniad?
20. Oes gennych chi gwestiynau i ni?

### Ar ôl y cyfweliad

Cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfweliad, gwnewch nodyn o'r cwestiynau a ofynnwyd i chi a sut roeddech chi'n teimlo eich bod wedi eu hateb. Efallai bydd angen i chi fynd am nifer o gyfweliadau cyn i chi gael cynnig swydd, felly defnyddiwch bob cyfweliad fel cyfle i ddatblygu. Os nad ydych yn llwyddiannus, edrychwch i weld a allwch gael adborth.

# Canolfannau Asesu

Am wybodaeth fanylach ac arweiniad ar ganolfannau asesu, ewch i'n gwefan Cyflogadwyedd yma: **https://fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills/assessment-centres**

## Trosolwg

Mae canolfannau asesu yn tueddu i fod yn ddigwyddiadau undydd neu ddeuddydd lle caiff ymgeiswyr eu harsylwi a'u hasesu yn erbyn meini prawf penodol, yn hytrach na chael eu cymharu ag ymgeiswyr eraill. Bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn nifer o ymarferion gwahanol a byddwch yn cael eich asesu'n barhaus drwy gydol y dydd. Gwnewch argraff gyntaf dda i bawb rydych chi'n cwrdd â nhw (hyd yn oed staff nad ydyn nhw'n staff sy'n rhan o'r asesu). Byddwch yn broffesiynol drwy'r amser yn ystod prydau bwyd neu ddiodydd.

## Agenda Enghreifftiol

Efallai bydd digwyddiadau cymdeithasol lle byddwch yn cwrdd ag ymgeiswyr eraill, recriwtwyr, graddedigion ac uwch-reolwyr. Dyma gyfle gwych i chi ddysgu mwy am y sefydliad a gofyn cwestiynau mewn sefyllfa anffurfiol (mae gofyn cwestiynau'n dangos diddordeb).

- Sesiynau gwybodaeth sy'n rhoi mwy o fanylion am y cwmni; os oes unrhyw beth sy'n aneglur, gofynnwch!
- Profion ac ymarferion wedi'u cynllunio i ddatgelu eich potensial.

Efallai bydd: gwaith grŵp, profion dawn, cyflwyniadau, tasgau datrys problemau.

## Beth gellir ei ofyn i chi?

Cwestiynau ar sail cymhwysedd: defnyddiwch eich profiad yn y gorffennol i ragfynegi sut byddech yn ymddwyn yn y rôl rydych chi'n cyflwyno cais amdani. Byddant yn disgwyl enghreifftiau o fywyd go iawn a bydd angen iddynt fod yn argyhoeddedig eich bod yn gallu trosglwyddo sgiliau (defnyddiwch CAR, tudalen 25).

Cwestiynau ar sail cryfderau: y ffyrdd gorau o gael gwybodaeth gan ymgeiswyr heb unrhyw atebion wedi'u hymarfer. Maen nhw'n defnyddio'r cwestiynau hyn i gael cipolwg ar eich bywyd a'ch personoliaeth. Mae'r atebion hyn yn llifo'n well gan fod ymgeiswyr yn aml yn ymgolli yn eu hymatebion. Gweler yr enghreifftiau ar y dudalen nesaf.

Cwestiynau annisgwyl: weithiau'n cael eu taflu i mewn i wneud i chi feddwl, wrth iddynt brofi eich gallu i feddwl ar eich traed ac ymateb dan bwysau. "Pa liw a math o hosan fyddech chi pe gallech chi?" neu; "Faint o frics allwch chi eu pentyrru tuag at y lleuad?"

## Paratoi

- Cymerwch ran mewn ffug ganolfan asesu a gynhelir gan y coleg!
- Darllenwch drwy'r manylion neu'r agenda a anfonwyd atoch am eich cyfweliad neu'ch canolfan asesu (a ydynt wedi gofyn i chi baratoi sleidiau?).
- Darllenwch drwy eich cais, eich CV a'ch llythyr eglurhaol i ymgyfarwyddo ag ef (byddwch yn cael cwestiynau am yr hyn rydych wedi'i ysgrifennu).
- Ymchwiliwch i'r cwmni a'r rôl a gwnewch nodiadau i'r dde.
- Gwisgwch yn briodol - eich dillad smart
- Lluniwch restr o'ch sgiliau a'r profiad/enghreifftiau i ategu hyn er mwyn i chi eu trafod yn y cyfweliad.
- Ymarferwch eich atebion gyda ffrindiau, teulu neu fentoriaid.
- Dylech gyrraedd yno o flaen amser (oes angen i chi archebu trafnidiaeth gyhoeddus?)

## Awgrymiadau Gwych

- Byddwch yn gyfeillgar a gwnewch gyfraniad cadarnhaol
- Gwnewch y gorau o sgwrsio â graddedigion diweddar
- Cymerwch ran, hyd yn oed yn ystod prydau bwyd, sgwrsiwch ag ymgeiswyr
- Byddwch yn naturiol a chanolbwyntiwch ar y rheswm dros fod yno

## Rhestr Wirio:

- Ydych chi wedi cynllunio ar gyfer noson dda o gwsg? ☐
- Oes gennych chi fap neu lwybr o ble rydych chi'n mynd? ☐
- Ydych eich dillad yn barod ac wedi'u smwddio? ☐
- Ydych chi'n neilltuo digon o amser ar gyfer traffig/oedi? ☐
- Ydych chi wedi darllen yr holl wybodaeth yn drylwyr? ☐
- Ydych chi wedi cynnwys y llyfryn hwn, eich CV, eich llythyr eglurhaol ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill mewn ffolder? ☐
- ☐ Have you prepared questions to ask the company?

Eisiau rhagor o wybodaeth? Ystyriwch y canlynol: https://fse-employability.swan.ac.uk/employability- skill

## Nodiadau am y cwmni:

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

.......................................................................

- Gwisgwch yn briodol - eich dillad smart

Mae cyfweliadau sy'n seiliedig ar gryfderau yn deillio o safbwynt cadarnhaol iawn ar recriwtio. Ei nod yw rhoi'r person iawn yn y swydd gywir ac mae'n canolbwyntio ar briodoleddau personol yn hytrach na chymwyseddau. Fel arfer, defnyddir cwestiynau cyflym iawn mewn cyfweliadau o'r fath i holi a yw'r ymgeisydd yn cydweddu'n dda ar gyfer y swydd wag.

Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.prospects.ac.uk/careers-advice/interview-tips/strength- based-interviews Isod ceir cwestiynau nodweddiadol y gellir eu gofyn i chi mewn cyfweliadau sy'n seiliedig ar gryfderau.

Peidiwch â gorfeddwl am eich atebion, fel arfer mae gan y cyfweliadau hyn gwestiynau sy'n gorgyffwrdd ac fe'u dadansoddir fel arfer am ddiffuantrwydd. Nid yw paratoi ar gyfer y math hwn o gyfweliad yn rhywbeth y gallwch ei adael tan y funud olaf â chwestiynau enghreifftiol. Y ffordd orau o baratoi yw meithrin lefel dda o hunanymwybyddiaeth ynghylch eich rhinweddau, eich gwerthoedd a'ch cymhellion. Bydd hyn yn eich helpu i dargedu'ch ceisiadau lle rydych chi'n cydweddu'n dda felly mae angen i chi ymchwilio i'r cwmni.

Mae rhai cwestiynau isod yn dangos y cwestiynau a allai godi, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr o bell ffordd; ni fyddai disgwyl i chi ddarllen drwyddynt wrth baratoi.



# Cymorth i Fyfyrwyr Rhyngwladol

- Mae byw ac astudio dramor yn dangos "symudedd byd-eang" a'r gallu i addasu at ddiwylliannau a heriau newydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn amlygu'r ymwybyddiaeth fyd-eang hon drwy gydol y broses ymgeisio
- Soniwch am yr holl ieithoedd rydych chi'n eu siarad, gan gynnwys Saesneg a'ch mamiaith
- Mynegwch a thynnwch sylw at wybodaeth am ddiwylliannau ac ymwybyddiaeth fyd-eang
- Oes gennych rwydwaith mewn gwledydd eraill neu gyda myfyrwyr rhyngwladol eraill mewn gwahanol wledydd?
- Defnyddiwch eich rhwydwaith yn eich gwlad frodorol i ddod o hyd i'ch lleoliad; rydym yn agored i gyfleoedd lleoliad rhyngwladol.

### Oes angen unrhyw beth ychwanegol arnoch?

Os oes gennych "hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas Unedig", tynnwch sylw at hyn yn eich cais a darparu dogfennau ategol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol ychwanegu hyn at eich CV a'ch llythyr eglurhaol.

Wrth ychwanegu eich cymwysterau addysgol, efallai na fydd cyflogwyr yn gyfarwydd â safonau rhyngwladol ac efallai bydd angen i chi drosi'ch cymwysterau i'r hyn sy'n cyfateb i'r DU. Ewch i UK NARIC am ragor o wybodaeth: naric.org.uk/naric

Mae MyfyrwyrRhyngwladol@BywydCampws yn helpu myfyrwyr a'u teuluoedd gyda phob math o broblemau nad ydynt yn rhai academaidd. Maen nhw'n arbenigwyr mewnfudo sydd wedi'u hyfforddi'n llawn a byddant yn ceisio cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau sydd gennych. Edrychwch ar eu tudalen we am ragor o fanylion https://www.swansea.ac.uk/international-campuslife/

# Cymorth am Anableddau

### Pa gymorth sydd gennych chi?

Penderfynu a ddylech ddatgelu eich anabledd ai peidio yw eich dewis personol eich hun. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol arnoch i wneud hynny a gallwch benderfynu a ydych chi am ei ddatgelu a phryd.

Os oes gennych anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol, cysylltwch â'r Swyddfa Anableddau am ragor o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael i sicrhau y gallwch elwa o'r un cyfleoedd â phawb arall. Mae'r Swyddfa Anableddau'n rhan o Wasanaethau Cymorth Cynhwysol i Fyfyrwyr.
Ewch i'w thudalen we i gael gwybodaeth am y cymorth a'r cyllid sydd ar gael www.swansea.ac.uk/cy/gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/

Am ragor o gymorth a chyngor, gallwch hefyd drefnu cyfarfod ag ACA a'r Ymgynghorydd Gyrfaoedd sydd yno https://myuni.swansea.ac.uk/cy/gyrfaoedd/amdanom-ni/sesiynau-galw-heibio/

# Cymorth i Fyfyrwyr Aeddfed

Gallwch ddod â phrofiad bywyd a phrofiad o fyd gwaith gyda chi. Dangoswch eich sgiliau a'ch rhinweddau i gyflogwyr a defnyddio'ch profiadau er eich budd chi.

### CVs/Ceisiadau:

- Nid oes rhaid i chi roi eich dyddiad geni na'ch oedran ar eich CV. Ystyriwch eich oedran yn gadarnhaol a phwysleisio eich cryfderau a'ch rhinweddau.
- Efallai na fydd cyflogwyr yn gyfarwydd â chymwysterau penodol (megis lefelau O, Cyrsiau Mynediad) felly esboniwch yn gryno yr hyn y maen nhw'n cyfateb iddo.
- Nid oes rhaid i chi roi pob swydd rydych chi erioed wedi'i gwneud ar eich CV. Gellir eu crynhoi a'u grwpio.
- Gwnewch gysylltiad â phrofiadau'r gorffennol, yr hyn rydych chi'n ei astudio nawr a'r hyn rydych chi am ei wneud yn y dyfodol. Mae hyn yn berthnasol os ydych wedi dod i'r brifysgol i newid gyrfa.
- Efallai byddwch am ysgrifennu CV ar sail sgiliau os na allwch gyfleu eich hunan mewn CV traddodiadol.
- Dylech chi gynnwys gwybodaeth fel gwaith gwirfoddol, diddordebau ac ymrwymiadau.

# Cymorth i Ôl-raddedigion

Mae'r prif reolau yn dal i fod yn berthnasol i chi, fodd bynnag, byddwch hefyd yn cael cyfle i brofi eich bod yn ymchwilydd rhagorol a fydd yn dod â gwerth ac arbenigedd i'r adran. Bydd eich gwybodaeth a'ch cyflawniadau hyd yma o ddiddordeb i'r adran neu'r sefydliad recriwtio, yn ogystal â'ch gallu i ddangos eich bod yn gallu rheoli prosiectau. Bydd y sgiliau rydych chi'n eu meithrin fel myfyriwr ôl-raddedig yn arwyddion gwerthfawr o'ch gallu i lwyddo mewn rôl newydd.

### CVs/Ceisiadau:

Mae CV academaidd fel arfer yn hirach na CV israddedig gan ei bod fel arfer yn ofynnol i'r ymgeisydd gynnwys unrhyw gyhoeddiadau neu gynadleddau y mae wedi bod yn rhan ohonynt, yn ogystal â'r canlynol:

1. Profiad Ymchwil
2. Profiad Addysgu
3. Profiad Gweinyddol
4. Sgiliau Technegol
5. Y gallu i ddenu cyllid

- Darllenwch drwy unrhyw bapurau ymchwil a ddatblygwyd gan yr adran rydych yn cyflwyno cais iddi; mae paratoi'n dda yn allweddol.
- Efallai y gofynnir i chi gyflwyno ar bynciau sy'n debyg i ymchwil flaenorol rydych chi wedi'i gwneud.
- Ydych chi'n gwybod pwy sy'n ariannu'r ymchwil ar hyn o bryd ac a oes unrhyw ofynion ar gyfer y cyllid?
- Ydych chi'n gwybod lle byddech chi'n ffitio yn yr adran pe byddech chi'n llwyddiannus?

# SPINterns

Ydych chi wedi bod yn aflwyddiannus wrth ddod o hyd i leoliad? A fyddwch chi'n aros yn Abertawe yr haf hwn?

Gallwch bob amser ymgeisio i ddod yn Intern SPIN (SPINtern) a gweithio i'r Coleg Peirianneg ar leoliad gwaith byr. Ceir llawer o wahanol gyfleoedd i chi ennill yr holl sgiliau a phrofiadau trosglwyddadwy hynny y gallwch fynd â nhw gyda chi i'r diwydiant.

Cadwch lygad ar eich negeseuon e-bost i gael gwybod pan fydd y broses ymgeisio yn dechrau!

# Adnoddau defnyddiol

**Sgiliau Cyflogadwyedd**

Ar agor i bob myfyriwr, gyda chyngor ac arweiniad ar gyflogadwyedd, swyddi gwag, blogiau, podlediadau, mewnwelediadau a mwy! **https://fse-employability.swan.ac.uk/employability-skills**

**Cylchlythyr Cyflogadwyedd**

Casgliad wythnosol o newyddion, lleoliadau gwaith a digwyddiadau Cyflogadwyedd drwy e-bost.

**Sesiwn Galw Heibio Cyflogadwyedd**

Dewch i siarad ag un o'r tîm am unrhyw beth sy'n gysylltiedig â Chyflogadwyedd, er enghraifft: CVs, ceisiadau a chyfweliadau, blwyddyn mewn diwydiant, lleoliadau gwaith dros yr haf a digwyddiadau chwilio am swyddi a chyflogadwyedd i raddedigion. Mae'r sesiynau galw heibio ar agor i bob myfyriwr o unrhyw grŵp blwyddyn.

Darganfyddwch ragor am sut gallwch ymuno â sesiwn galw heibio:
**https://outlook.office365.com/owa/calendar/FSEEmployability1@SwanseaUniversity.onmicrosoft.com/bookings/**

**Hyrwyddwyr Cyflogadwyedd**

Mae gan bob disgyblaeth Peirianneg hyrwyddwr dynodedig i ddarparu cymorth ac arweiniad; mae manylion pob un wedi'u cynnwys yn y llawlyfr hwn ac mae eu horiau swyddfa wythnosol wedi'u cynnwys yn y cylchlythyrau. Hyrwyddwyr Cyflogadwyedd - Prifysgol Abertawe

**Academi Cyflogadwyedd Abertawe**

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar y tudalennau canlynol: **https://www.swansea.ac.uk/cy/cyflogadwyedd/**

https://www.instagram.com/fseemployability/

www.linkedin.com/in/sufseemployability

https://fse-employability.swan.ac.uk/
Cyflogadwyedd y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg (office365.com)